CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced

557/51

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL RS 7a

## Astudiaethau mewn Crefydd a Moeseg

A.M. DYDD MERCHER, 21 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd ar wahân.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 25 marc ar gael ar gyfer pob cwestiwn. Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Fe'ch atgoffir o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion.

Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn.*

**1.** *(a)* Eglurwch beth sydd gan orchymyn diamod Kant yn gyffredin ag egwyddorion moesegol unrhyw **un** o brif grefyddau'r byd. [15]

*(b)* 'Mae moesoldeb crefyddol yn fwy perthnasol na moeseg Kantaidd wrth ddelio â materion moesol heddiw.'
Gwerthuswch yr honiad hwn o safbwynt unrhyw **un** o brif grefyddau'r byd. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch ddadleuon moesegol yn erbyn gofalu bod erthyliad ar gael ym mhob amgylchiad. [15]

*(b)* 'Dylai menyw fod â'r hawl i gael erthylu ffoetws os yw'n dangos arwyddion o niwed difrifol i'r ymennydd.'
Gwerthuswch yr honiad hwn o safbwynt unrhyw **un** o brif grefyddau'r byd. [10]

**3.** *(a)* Eglurwch y cysyniad o hawliau dynol, gan roi enghreifftiau yn eich ateb. [15]

*(b)* 'Mae ymddwyn yn deg tuag at un grŵp o bobl yn aml yn golygu bod eraill yn cael eu trin yn annheg.'
Gwerthuswch yr honiad hwn. [10]